Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2023

Beirniadaeth cystadleuaeth y Gadair

Mae deg wedi cystadlu am y gadair eleni ym Mhenrhyn-coch. Am gerdd yn ymateb i unrhyw ddarn o gelf y gofynnwyd. Mae pob un ond un wedi dewis ysgrifennu cerdd benrhydd.

Does dim lle i guddio mewn cerdd benrhydd. Does dim modd dibynnu ar driciau soniarus mydr ac odl neu gynghanedd er mwyn tynnu sylw oddi wrth ddiffygion y synnwyr neu'r dweud. Oherwydd hyn rhaid talu llawer mwy o sylw i fanylion diriaethol a mynegiant croyw a thrawiadol, gan osgoi ystrydeb, haniaeth a chyffredinedd.

Dyma air am bob un. Ac eithrio'r pedwar a ddaeth i'r brig, nid ydynt mewn trefn benodol.

'Capel Soar y Mynydd' gan **Dilys** – Dyma gyfres o ddeg o dribannau digon twt a chrefftus yn sôn am y capel hynod hwn. Ar yr olwg gyntaf, efallai y byddai dyn yn holi, 'Beth yw'r darn o gelf yn y fan hyn?' ond cwestiwn philistaidd fyddai hynny i unrhyw un sy'n adnabod yr adeilad hardd hwn. Diolch am ein hatgoffa bod celfyddyd i'w chanfod y tu hwnt i furiau'r galeri.

Cerdd am gerflun o filwr Sofietaidd yn Berlin ac hefyd Offeren Heddwch Karl Jenkins 'The Armed Man' sydd gan **Colomen Wen**. Adroddir profiad y bardd o ganu'r offeren honno am yn ail a myfyrdod am y cerflun a'i arwyddocad cyffredinol, ond hefyd personol wrth i'r bardd gofio am ei 'ewythr Rees innau' sydd yn 'gelain ym Mynwent Fferm Kandahar'. Diwedda'r gerdd gan gyfeirio at 'Realiti y presennol' bod yn dwrist yn Berlin a sut mae perygl i hynny guddio erchyllterau'r atgofion. Mae'r syniad yn un da, ac mae rhai pethau trawiadol yn y gerdd, ond nid wyf yn teimlo bod y profiadau wedi eu cydblethu yn gyfangwbl llwyddiannus ac mae tuedd tuag at fod yn ddi-fflach yn y dweud ar adegau. Efallai bod angen mwy o ofod ar y themâu hyn nag y gall un gerdd 50 llinell ei gynnig.

'Gernika' Picasso oedd testun ymgais **Picasso**. Dyma ddarlun sydd wedi ysbrydoli sawl un i gyfansoddi yn y gorffennol. Mae defnydd pwrpasol o ail adrodd 'a weli di' yma, yn mynnu hoelio ein sylw ar sut y mae'r darlun yn dangos y trais a'r dioddefaint a ddigwyddodd yn y pentref hwn yng Ngwlad y Basgiaid dan orthrwm Ffranco. Pwerus hefyd yw'r ymadrodd 'cegau cegrwth' a'r pennill olaf trawiadol. Serch hynny, mae yma duedd i'r dweud fod yn or-amlwg, gan gynnig sylwebaeth lle mae disgrifio'r gwrthrych yn ddigonol.

Cynigiodd **Garth Bach** gerdd am ddarlun Iola Edwards 'Yr Aran', gan osod ar gopa'r gerdd ddwy linell o 'Moelni' T.H. Parry -Williams. Disgrifia'r gerdd y bardd yn myfyrio ar y darlun 'o'm cadair esmwyth / Yn corddi teimladau, / emosiynau lu'. Magwyd y bardd yng nghysgod y mynydd hwn, ac er i'r bardd symud i ffwrdd, mae'r lle yno o hyd yn y darlun, yn gysur mawr (er bod 'cysgodion tywyll a düwch' yn atgof 'nad oedd popeth yn berffaith'). Rhennir y gerdd yn benillion pedair llinell, gyda dau guriad ym mhob un ar y cyfan. Mae'r dweud yn syml ac yn uniongyrchol (yn adlewyrchu efallai y moelni a grybwyllir yn y dyfyniad). Teimlaf o

bosib fod rhywbeth ychydig yn rhy foel a di-fflach am y dweud, ond serch hynny dyma fynegiant diffuant o sut y gall darn o gelf cyfarwydd fod yn gysur.

Mae **Cynri** wedi dewis cerflun o'r enw 'Melody' 'sy'n ymchwilio'i phrofiad o fyw gyda chlefyd siwgr'. Dyma fynegiant trawiadol o'r profiad o ddioddef o'r cyflwr hwn, gan ddisgrifio hynny fel cerdded ar dynraff sydd hefyd yn weiren bigog, gydag ymwybyddiaeth y dioddefwr o'i feidroldeb yn islais sy'n brigo i'r wyneb ar adegau argyfyngus. Yn anffodus, mae mân wallau gramadegol yn y gerdd sy'n amharu rywfaint arni.

'Yr Ynys' yw teitl cerdd **Bethan**. Cerdd a ysbrydolwyd gan gerflun 'Sant Ffransis o Assissi a'r Gwahanglwyf' gan T.P Schmalz yw hi. Mae'n olrhain hanes Epaminondas Remountakis a alltudiwyd i ynys Spinalonga oddi ar arfordir Creta, lle'r oedd cymuned o wahanglwyfion yn byw. Fe weithiodd hwnnw yn ddyfal er mwyn hawliau'r cleifion, a disgrifir mewn modd cofiadwy ei falchder wrth i'r 'fintai gyntaf a iachawyd' fynd yn rhydd o'r ynys. Dyma gerdd uniongyrchol yn dweud stori bwysig ac anghofiedig braidd gan ddathlu cryfder yr ysbryd dynol goruwch creulondeb afiechyd.

Dyma'r pedwar a ddaeth i'r brig:

'Te Tamari No Atua' gan Gaugin yw'r darlun a ddewisodd **Tahiti** yn destun. 'Plentyn Duw' yw ystyr y geiriau hyn. Mae'r gerdd yn ymdrin yn drawiadol â'r darlun hwn o gariad Gaugin sydd fel pe bai'n herio confensiynau portreadu'r Forwyn Fair yng nghelfyddyd y Gorllewin. Mae'r bardd yn mynd â'r herio yma yn bellach, gan ddefnyddio geiriau'r ferch yn y darlun i'n herio ninnau ac hefyd Gaugin ei hun am na allwn amgyffred ei phrofiad unigol unigryw hi o eni plentyn. Mae rhyfyg yr artist o weld ei hun fel Duw yn cael ei danseilio ar yr un pryd ag y tanseilir ein hagwedd *voyeuristic* ni. Cerdd gynnil a chymhleth oedd hon ac fe lwyddodd i'm herio.

Testun cerdd **Brynsiencyn** yw 'Swper yn Emaus' gan Caravaggio. Cefndir dudew sydd gan y darlun hwn. Yn erbyn hwnnw, mae disgleirdeb llachar goleuni yn taro ar wynebau, lliain bwrdd a bwyd. Dyma gipio fflach y sylweddoliad syfrdanol ar ran y disgyblion mai eu cyfaill atgyfodedig yw hwn sy'n torri bara gyda nhw. Mae cerdd Brynsiencyn yn ei thro yn cipio'r cyffro sydyn a geir yn y darlun drwy ddefnyddio llinellau staccato sydd yn y lle cyntaf yn adeiladu teimlad o awyrgylch unffurf, tywyll, cyn ffrwydro'n fflach o sylweddoliad. Dyma gerdd sy'n dangos sylw manwl at y gwaith celf gwreiddiol o ran testun ac arddull, ac edmygais hynny'n fawr.

Eglura **fe ddaw'r amser** mai croniclo'r profiad o weld 'Death on a Pale Horse' gan Turner yn oriel Tate Britain 'sawl blwyddyn yn ôl' y mae. Dyma ddisgrifiad arswydus o brofiad arswydus, lle mae'r bardd fel pe bai'n ymateb yn gorfforol i'r portread annaearol ac annelwig o sgerbwd toredig ar gefn march ffyrnig, gan glywed 'llais mor isel / ag i fygu f'anadl' nes llithro mewn i stad o barlys ac o ymdeimlad bod y diwedd wedi cyrraedd cyn deffro i'r byd – am y tro. Mae'r cyfan wedi ei gyflwyno yn ddiwastraff ac yn ddiriaethol ond heb ystrydeb. Mae dyn yn teimlo ei fod yno, yn y fan a'r lle yn cyd-brofi'r teimlad anghynnes hwn.

‘Ebbw Vale by Night’ gan John Piper yw testun ymgais Marlais, a hon yw’r gerdd sy’n dod i’r brig. Mae Piper yn enwog am ei ddarluniau o adeiladau mewn gwedd swrreal, gwyrdroedig bron. Yn y darlun dan sylw, does dim byd yn eglur. Un bloc piwslas, neu’n lasbiws, yw’r darlun gyda rhai darnau neu farciau mewn lliwiau eraill, melyn, gwyn a chcoch. Nid oes dim yn eglur – ai ffenestri ffatri a welir yma? – ai ffwrnais y gwaith dur sydd acw? – ai drws ar agor yw hwn? Mae’r gerdd yn adlewyrchu’r dechneg hon, drwy daflu lluniau, gwrthrychau, syniadau, delweddau at ei gilydd er mwyn creu teimlad, argraff. Daw trobwynt wrth i’r bardd nodi ‘gwelaf fod bwlch i mi y crwydryn, a bwlch hefyd i fy nhref fy hun’. Sonia am agor drws ei dŷ, gan uniaethu profiad yr artist a’i brofiad ei hun. Dathla sut mae’r a gwaith a grewyd yn gwrthod ‘totalitariaeth camerâu’. Mae creadigaeth y cof yn drech, ac yn fwy cywir, awgryma, wrth ddangos cymhlethdod ac amwysedd y byd diriaethol. Dyma ddathliad nid yn unig o’r gwaith celf hwn, ond hefyd o gelfyddyd fel ffordd o ymdopi drwy dderbyn bod y byd a bywyd yn gymhleth a bod rhai pethau nad oes modd eu hegluro na’u gweld yn llawn.

Emyr Lewis
Ebrill 2023